# Adroddiad Ymgynghori Cytundeb Cyflawni – 2023-2038

## Cyflwyniad

Bu’r Cytundeb Cyflawni (CC) Drafft yn destun ymgynghori am gyfnod o bythefnos, o ganol dydd ar 6 Hydref 2023 tan 19 Hydref 2023. Gan fod y CC wedi’i baratoi mor ddiweddar â 2021 (oherwydd mai newidiadau i’r terfynau amser a wnaed yn bennaf) mae’r rhan fwyaf o’r ddogfen yn parhau yr un fath â’r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol yn 2021.

Darparwyd y ddogfen ar wefan y Cyngor, ac anfonwyd negeseuon e-bost/llythyron at randdeiliaid penodol a chyffredinol ar gronfa ddata ymgynghori’r CDLl.

Daeth cyfanswm o chwe ymateb i law, sydd i’w gweld yn Atodiad 1. Gwnaed newidiadau yn ôl y galw i’r CC Drafft.

## Atodiad 1: Crynodeb o'r cynrychiolaethau

---

**Cynrychiolydd:** Cheltenham Elim

**Sylwadau:** Cais am ddod oddi ar gronfa ddata'r CDLl.

**Newid i'r CC?:** Tynnwyd o Atodiad H

---

**Cynrychiolydd:** GGAT

**Sylwadau:** Croesawu'r cyfathrebu gyda manylion y terfynau amser newydd.

**Newid i'r CC?:** Nodwyd. Ni chynigiwyd newid i'r CC.

---

**Cynrychiolydd:** Home Builders Federation (HBF)

**Sylwadau:** Gofyn bod y CC yn cyfateb i'r CC ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol (CDS), ond ni chynigiwyd CC ar gyfer y CDS. Gallai'r gofynion/bwriad a nodwyd i alinio'r dogfennau hyn gael effaith fawr ar yr amserlen a gynigiwyd.

**Newid i'r CC?:** Nodwyd. Ni chynigiwyd newid i'r CC. Ar hyn o bryd nid oes terfyn amser ar gyfer y CDS. Gwneir y gwaith mewn cydweithrediad â'n partneriaid rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y sylfaen o dystiolaeth a'r methodolegau'n cyfateb, fel bod modd cyflwyno CDS pan fydd cyllid yn caniatáu.

---

**Cynrychiolydd:** HBF

**Sylwadau:** Cychwynnwyd yr Adolygiad 2 flynedd yn ôl, mae cymryd amser ychwanegol Cyn-Adnau i'w weld yn ormodol.

**Newid i'r CC?:** Ni chynigiwyd newid i'r CC. Fel y nodwyd yn y CC, mae angen safleoedd tai ychwanegol. Hefyd mae materion dichonoldeb a chyfyngiadau seilwaith y mae angen eu goresgyn wedi arwain y Cyngor i ddiwygio'r CC.

---

**Cynrychiolydd:** HBF

**Sylwadau:** Mae'r CC yn golygu bod ymgynghori sylweddol yn digwydd yn agos at Wyliau'r Nadolig.

**Newid i'r CC?:** Ni chynigiwyd newid i'r CC. Mae'r cyfnodau ymgynghori yn parhau am 6 wythnos, ac anfonir hysbysiadau ar ddechrau pob ymgynghoriad. Ymhellach, bydd terfynau amser ymgynghori yn cael eu cynllunio i gymryd gwyliau banc a gwyliau ysgol i ystyriaeth.

---

**Cynrychiolydd:** Yr Awdurdod Glo

**Sylwadau:** Dim sylw.

**Newid i'r CC?:** Nodwyd. Ni chynigiwyd newid i'r CC.

---

**Cynrychiolydd:** Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Sylwadau:** Dim sylw.

**Newid i'r CC?:** Nodwyd. Ni chynigiwyd newid i'r CC.

---

**Cynrychiolydd:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Sylwadau:** Cefnogir y cynllun a bydden nhw'n awyddus i ymgysylltu â'r broses a nodwyd yn y CC. Ar ben hynny, croesawir dull cydlynus o fynd i'r afael â'r problemau a wynebir yn y Fwrdeistref Sirol.

**Newid i'r CC?:** Nodwyd. Ni chynigiwyd newid i'r CC.

---

**Cynrychiolydd:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Sylwadau:** Gwnaed ymrwymiad yn y CC i gynhyrchu adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ac fel rhanddeiliad allweddol rydym ni'n croesawu hyn ac yn gwneud y sylwadau canlynol:

- Sut bydd rhagfynegiadau addasu i'r hinsawdd yn y tymor hir yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau?
- A fydd Fframwaith Monitro Addasu CCC yn cael ei ddefnyddio'n Fframwaith asesu?
- A oes cyfle i ddefnyddio'r broses hon i annog / gefnogi gweithio mewn partneriaeth er mwyn lliniaru sefyllfa'r hinsawdd yn CNPT?

**Newid i'r CC?:** Nodwyd. Ni chynigiwyd newidiadau i'r CC. Rhoddwyd sylw i'r sylwadau fel rhan o'r Adroddiad Rhychwantu'r ACI.

---

**Cynrychiolydd:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Sylwadau:** Yn y CC amlygir y bydd tîm y CDLl yn ysgrifennu at bob landlord ynghylch safleoedd ymgeisiol, ac rydym ni'n argymell bod hynny'n cynnwys y Bwrdd Iechyd.

**Newid i'r CC?:** Dim newid. Ni chynigir newid i'r CC. Mae'r CC yn cynnwys Fforwm Landlordiaid Preifat fel rhan o'r rhestr ymgyngoreion cyffredinol. Fel y nodwyd yn y CC, fel rhan o'r Alwad am Safleoedd, bydd y Cyngor yn ysgrifennu at yr holl randdeiliaid a nodwyd yn y CC, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.